



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Gyflawn Ebrill 2016

Mae Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar yr ymgeisydd angen unrhyw oruchwyliaeth.

Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 14

Llwyddo: 1

Er mai un ymgeisydd yn unig a fu'n llwyddiannus yn y rownd hon, daeth sawl un arall yn agos iawn, ac mae'n drueni gorfod nodi, unwaith yn rhagor, y gallasai'r canlyniad fod yn wahanol i ambell un petai'r gwaith wedi cael ei ddarllen yn fwy trylwyr cyn ei gyflwyno. Yn wir, roedd nifer o ymgeiswyr wedi llwyddo yn y darn cyntaf, ond heb gael cystal hwyl ar yr ail. Gwelir hyn i ryw raddau yn aml yn yr arholiadau, sy'n creu'r argraff nad yw'r ymgeiswyr wedi llwyddo i reoli eu hamser yn effeithiol. Yn sicr, mater o arfer da i bob ymgeisydd fyddai rhannu'r amser yn gyfartal rhwng y ddau ddarn, ac yn bersonol, fe awn innau'n bellach na hynny eto, a dweud mai buddiol fyddai rhannu'r awr honno fesul darn yn gyfartal rhwng y cyfieithu a'r darllen, er mwyn sicrhau'r copi glanaf posibl.

Fel yr awgrymwyd eisoes, roedd ambell un yn agos at y lan, a chafwyd rhai cyffyrddiadau effeithiol iawn, e.e.:

stubbornly addicted to
yn ystyfnig gaeth

we will be crunched by numbers
y niferoedd yn drech na ni

Despite the economic crisis, around 2 million vacancies remain unfilled in the EU today.
Er gwaethaf yr argyfwng economaidd, erys tua 2 filiwn o swyddi gwag yn yr UE heddiw.

But the human race's ability to restrain itself is.

Ond mae lle i amau gallu'r hil ddynol i ffrwyno'i hun.

If the west halved meat consumption

Pe byddai gwledydd y gorllewin yn haneru faint o gig maent yn ei fwyta

Siom, fodd bynnag, oedd gweld cryn nifer o wallau ystyr – yn wir, yn y categori ystyr y cafodd nifer o'r ymgeiswyr eu gradd isaf, a rhaid dweud na ddylid gweld enghreifftiau fel y rhain mewn papur ar y lefel hon:

the employment rate

y gyfradd diweithdra

inactive family members

aelodau llesg o'r teulu

Climate change could make half the world's current farmland unsuitable

Gall newid hinsawdd wneud tir ffermio cyfredol yn anaddas

Squeezing ever-higher yields

Mae cynhyrchu cnydau enfawr eto fyth

halving UK meat and dairy consumption

byddai haneru cymeriant cig yn y DU

We are literally farming ourselves out of food.

Yn llythrennol, mae ffermio yn arwain at ddiffyg bwyd.

Cafwyd rhai anawsterau cystrawennol hefyd, fel y gwelir isod:

The main motivation for EU citizens to make use of free movement is work-related, followed by family reasons.

Y prif reswm y mae dinasyddion yr UE yn manteisio ar yr hawl i symud yw am resymau gwaith, ac ar ôl hynny am resymau teuluol.

the EU right most cherished by Europeans

hawl yr Undeb Ewropeaidd a goleddir fwyaf twymgalon gan bobl Ewrop

allowing for an efficient matching of skills with vacancies

gan alluogi paru effeithiol o sgiliau a swyddi gwag

lead to our children and grandchildren reaping benefits

yn arwain at ein plant a'n hwyrion yn elwa o'r manteision

Mae enghreifftiau fel y rhain yn dangos, unwaith yn rhagor, pa mor hanfodol bwysig yw rhoi'r darn gwreiddiol o'r neilltu ar ôl gwirio ystyr y cyfieithiad, a darllen y gwaith sydd i'w gyflwyno fel darn annibynnol, er mwyn sicrhau ei fod yn llifo'n naturiol, a bod y cystrawennau'n taro deuddeg yn yr iaith darged. Ni ellir derbyn mynegiant trwsogl fel

sydd yn yr enghreifftiau uchod mewn arholiad lle mae disgwyl i'r gwaith a gyflwynir fod o safon broffesiynol.

Gwaetha'r modd, gwelwyd hefyd gryn nifer o wallau cywirdeb. Yn amlwg, gellir maddau ambell lithriad o dan amodau arholiad, ond testun siom yw gweld nifer o wallau cywirdeb yng ngwaith unrhyw ymgeisydd ar y lefel hon. Dyma rai enghreifftiau a welwyd yn y papurau:

***yn uwch nac ymysg
mewn gwledydd arall
problemau y gall symudedd ei achosi
rhan annatod o'r Farchnad Sengl ac yn elfen ganolog o'i lwyddiant
gall yr hawl i symud hwnnw
sy'n ddiodef
deugain blynedd
ein plant a'n wyrion
Byddai bwyd lled ddarvoudus [A moderately abstemious life]***

Mae gwallau o'r math yma'n peri i'r darlennydd holi eto tybed a oedd yr ymgeiswyr wedi caniatáu digon o amser i ddarllen eu gwaith yn fanwl, gan na ddisgwylir gweld brychau o'r math yma ar y lefel hon.

Er bod rhai nodweddion digon addawol, felly, gwaetha'r modd ni ellid dyfarnu Aelodaeth Gyflawn i fwyafrif ymgeiswyr y rownd hon, gan fod angen cryn dipyn o ddiwygio a chywiro pellach ar eu gwaith. Wedi dweud hynny, rwy'n ffyddiog y bydd sawl un oedd yn agos ati y tro hwn yn llwyddo o olygu'r gwaith yn fwy trylwyr cyn ei gyflwyno.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 2
Llwyddo: 1

Wrth droi at y cyfieithu i'r Saesneg, er mai nifer fach safodd yr arholiad y tro hwn, braf yw nodi bod un wedi llwyddo, ac er na chafodd yr ymgeisydd aflwyddiannus hwyl arni y tro hwn, fod gwaith yr ymgeisydd hwnnw hefyd yn cynnwys rhai cyffyrddiadau da.

Dyma rai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus a welwyd yn y papurau:

***gan fod llywodraethau San Steffan wedi hen roi heibio'r syniad
given that Westminster governments have long abandoned the idea***

I'r graddau y gwna hynny, rydym yn fodlon ei chefnogi a chydysnio â pharhad ei dylanwad drosom.

To the extent that it does so, we are willing to support it and consent to its continuing influence over us.

yn rhan o wead bywyd
part of the fabric of life

Diwrnod braf o Hydref yn 1979 oedd hi pan gwrddais i â Dafydd Dafis... am y tro cyntaf
I first met Dafydd Dafis... on a sunny October day in 1979.

yn ei holl haelioni rhyfeddol a'i gymhlethdod trybeilig
with all its astonishing generosity and terrible complications

Fodd bynnag, cafwyd hefyd enghreifftiau o gyfieithu nad oeddent yn dilyn patrymau naturiol y Saesneg, e.e.:

mild afternoon in Spring [yn hytrach na 'mild Spring afternoon']

how is the Welsh people's attitude towards the Union?

What attitude to the Welsh have...? [gwell fyddai 'What is the attitude of the Welsh...?']

a significant chunk of the population [cywair rhy anffurfiol]

He was equally fluent using the scientific names and the English names as he was using the Welsh names.

Mae enghreifftiau fel y rhain nid yn unig yn cymylu'r mynegiant, ond hefyd yn amharu ar lif y darn, ac yn golygu bod y gwaith a gyflwynir yn darllen fel cyfieithiad, yn hytrach na darn gwreiddiol yn yr iaith darged.

Er bod yr iaith yn lân at ei gilydd yn y ddau bapur, cafwyd ambell enghraifft o fân wallau lle na roddwyd sylw digonol i union eiriad y gwreiddiol, e.e.:

Diwrnod braf o Hydref
a fine autumn's day

y prynhawn hyfryd hwnnw o hydref
that glorious day in autumn

Siom yw gweld gwallau esgeulus o'r math hwn ar y lefel hon, a charwn annog ymgeiswyr y dyfodol i sicrhau eu bod yn golygu eu gwaith yn fanwl cyn ei gyflwyno, er mwyn dileu mân frychau fel y rhain.

Wrth gloi fy adroddiad, carwn ddiolch o galon i'r holl farcwyr ac i staff y swyddfa am eu gwaith trylwyr a'u holl gymorth a'u cefnogaeth i'r Prif Arholwr.

Fiona Gannon
Mai 2016